



## 25<sup>ain</sup> Mawrth 2020

Annwyl Asiant

Mae'r nodyn hwn yn diweddarau'r un a anfonais at ein hasiantau cynllunio ddydd Mercher diwethaf ynghylch y ffordd y mae'r Coronafirws yn effeithio ar Wasanaeth Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae pethau wedi symud ymlaen yn sylweddol mewn wythnos, a chredaf ei bod yn amserol fy mod yn rhoi diweddariad i chi.

Yn gyntaf, ac yn bwysicaf oll, gobeithio eich bod chi a'ch teuluoedd i gyd yn cadw'n ddiogel - yn y pen draw dyma'r brif flaenoriaeth i bob un ohonom.

Yn dilyn Datganiad y Prif Weinidog yn gynharach yr wythnos hon, y newid mwyaf ers y diweddariad dydd Mercher diwethaf yw ein bod wedi penderfynu nad yw cynnal ymweliadau safle yn 'angenrheidiol' yn y tymor byr. Felly, ni all swyddogion achos fynd i ymweld â safleoedd nac arddangos yr hysbysiadau safle statudol. Mae hyn yn golygu na ellir prosesu unrhyw geisiadau newydd na'r rhai a dderbyniwyd yn gymharol ddiweddar yn syth bin. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu eto ymhen 3 wythnos.

Yn amlwg fe fydd yn cymryd mwy o amser i benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio yr effeithir arnynt. Unwaith y bydd y cyfyngiad dros dro hwn wedi mynd heibio, bydd y ceisiadau hyn yn cael eu blaenoriaethu a'u penderfynu cyn gynted â phosibl. Efallai y bydd hyn yn rhwystredig i rai, ond rwy'n siŵr y byddwch chi'n deall ac yn cefnogi ein rhesymeg. Rwy'n credu bod y mwyafrif o Awdurdodau eraill a'r Arolygiaeth Gynllunio yn defnyddio dull gweithredu tebyg.

Rydym dal yn agored i dderbyn ceisiadau cynllunio newydd, er, fe fydd angen i ymgeiswyr ac asiantau fod yn fwy amyneddgar ac o bosibl aros ychydig yn fwy o wythnosau nag arfer am benderfyniad. Ar hyn o bryd, rydym yn ansicr pa mor hir fydd y cyfnod aros hwn, a byddaf yn ymdrechu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ynghylch y cynnydd.

Gall swyddogion achos roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am eich ceisiadau pe bai unrhyw ansicrwydd.

Mae'r materion eraill a godais yr wythnos diwethaf yn dal i fod yn ddilys, a cheir crynodeb isod:

- Mae swyddfeydd y Parc Cenedlaethol ar gau i'r cyhoedd;
- Ni fydd pwyllgor cynllunio ar y 1af o Ebrill nac ar yr 20fed o Fai. Bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu mewn perthynas â'r Pwyllgor Cynllunio ar y 5ed o Orffennaf. Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru hefyd yn ymchwilio i ddeddfwriaeth a fydd yn galluogi i bwyllgorau cynllunio ddigwydd o hirbell - unwaith eto byddaf yn rhoi diweddariad i chi pe bai'r sefyllfa hon yn newid
- Os gwelwch yn dda, cyflwynwch eich cais cynllunio yn electronig yn unig am y tro, a thalwch drwy wneud trosglwyddiad banc BACS. Manylion banc ar gyfer taliad o'r fath yw: Enw'r Cyfrif: AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI CYFRIF INCWM Cod Didoli: 20-35-70 a Rhif Cyfrif: 30507008. Mae'n hanfodol eich bod yn defnyddio cyfenw'r ymgeisydd cynllunio fel cyfeirnod ac, os yw'r gofod yn caniatáu, defnyddiwch gyfeiriad safle'r cais yn y blwch cyfeirio hefyd. Yna, wedi i chi wneud y taliad BACS anfonwch e-bost (ar unwaith os yn bosibl) at [cynllunio@eryri.llyw.cymru](mailto:cynllunio@eryri.llyw.cymru) gan nodi'r swm a dalwyd, eich cyfeirnod (h.y. cyfenw a chyfeiriad yr ymgeisydd yn ddefnyddiol), cyfeiriad y safle ynghyd â'r datblygiad o dan sylw. Yn anffodus ni allaf warantu y bydd aelod o staff i gymryd taliadau electronig dros y ffôn, ac ni allaf warantu y bydd staff ar gael i dderbyn sicciau - fe'ch anogaf i ddefnyddio taliadau BACS am y tro yn unig. Ar ôl i'r taliad gael ei glirio, gall y cais fynd yn ei flaen.

- Byddwn yn dal i ddefnyddio'r gwasanaeth cyngor cyn cyflwyno cais a nodwch y bydd yn rhaid gwneud pob taliad am hynny trwy BACS hefyd - ac yn dilyn y taliad anfonwch e-bost at [cynllunio@eryri.llyw.cymru](mailto:cynllunio@eryri.llyw.cymru) ynghyd â'r cyfeirnod gofynnol fel y cyfeirir ato uchod.

Diolch i chi i gyd am eich amynedd a'ch cydweithrediad yn ystod y cyfnod heriol hwn. Rwy'n addo y byddwn yn gweithio hefo chi unwaith y byddwn yn dod trwyddi'r ochr arall i hyn i geisio sicrhau bod pethau'n ôl ar y trywydd iawn cyn gynted â phosibl. Fel y dywedais yr wythnos diwethaf, edrychaf ymlaen at gael trafodaethau manylach â chi yn ein Cyfarfod Asiantau Cynllunio - yr haf hwn gobeithio.

Peidiwch ag oedi cyn cysylltu â mi os oes unrhyw beth yn aneglur, ac wrth gwrs, cadwch yn ddiogel.

Cofion  
Jonathan



**Jonathan Cawley, MTP, MRTPI**

Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir

Ffôn: 01766 772206 / 07900267523

E-bost: [jonathan.cawley@eryri.llyw.cymru](mailto:jonathan.cawley@eryri.llyw.cymru)